



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Canllaw homestay i deuluoedd croesawu

Hoffech chi fod yn deulu croesawu? Yn ystod eu hastudiaethau, bydd holl fyfyrwyr Rhyngwladol 16-18 oed yn aros yng nghartref un o deuluoedd croesawu Homestay a fydd yn darparu'r amgylchedd diogel, gofalgar sydd ei angen arnynt.

Beth yw'r peth gorau am fod yn deulu croesawu?

Mae bod yn deulu croesawu yn gallu rhoi cyfle i chi ddysgu am ddiwylliannau eraill a meithrin cysylltiadau hirsefydlog â myfyrwyr o bedwar ban byd. Mae nifer o'n teuluoedd croesawu yn cadw mewn cysylltiad â'r myfyrwyr maen nhw wedi'u croesawu ac mae'r holl brofiad wedi bod yn hynod fuddiol iddynt.

Pam mae'n bwysig i fyfyrwr aros gyda theulu homestay?

Mae Homestay yn rhoi cyfle ardderchog i'n myfyrwyr wella eu Saesneg a dysgu am ein harferion a'n traddodiadau a chael eu trwytho yn ein ffordd o fyw. Yn aml dyma'r tro cyntaf i'r rhan fwyaf ohonynt fyw oddi cartref ac maen nhw'n dysgu sut i fod yn fwy annibynnol. Bydd hyn yn eu paratoï'n dda ar gyfer bywyd yn y brifysgol.

Trwy groesawu'r myfyrwyr i'ch cartref byddwch yn eu helpu i ymgartrefu a goresgyn unrhyw hiraeth posibl y byddan nhw'n ei deimlo. Mae'n bwysig eich bod yn cael eich pryddau bwyd gyda'r hwyr gyda'ch gilydd pan fo'n bosibl, oherwydd bydd hyn yn rhoi modd i chi ddod i adnabod eich gilydd yn well ac mae'n gyfle arall iddynt ymarfer eu Saesneg.

Mae'r Coleg yn trefnu rhaglen gymdeithasol i'r myfyrwyr gan gynnwys taith o gwmpas y ddinas pan gyrhaeddant er mwyn iddynt ymgyswrtu â hi ac ymweliadau â dinasoedd amrywiol megis Caerdydd, Rhydychen a Chaerfaddon. Mae'r myfyrwyr wedi mynegi eu mwynhad wrth dreulio amser gyda'r teulu croesawu yn eu hamser hamdden hefyd.

Beth mae homestay yn ei gynnwys?

Rhaid i bob myfyrwr gael ei ystafell wely ei hunan, gyda chwprdd dillad, lle storio a drych. Dylent hefyd gael desg astudio, cadair, lamp a mynediad i WiFi. Bydd angen allwedd tŷ ar gyfer eu defnydd eu hunain ac efallai y bydd rhaid i chi ddangos unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol y byddech am iddynt lynu wrthynt. Cânt eu hannog i roi gwybod i'w teuluoedd croesawu os byddant yn hwyr am bryddau bwyd neu'n hwyr yn dychwelyd adref. Mae'n

bwysig eich bod yn cadarnhau hyn er eich lles eich hun a hefyd i ddiwallu rheolau cyrffiw y Coleg sef 22:00awr yn ystod yr wythnos a 23:00awr yn ystod y penwythnos.

Bydd rhaid i chi ddarparu brecwast a phryd gyda'r hwyr bob dydd. Argymhellir eich bod yn trafod yr hyn maen nhw'n ei hoffi/gasáu pan gyrhaeddant. Bydd angen rhywfaint o le yn y gegin er mwyn i'r myfyriwr gadw ei fyrbrydau.

Rhaid darparu dillad gwely a thywelion glân bob wythnos a bod yn gyfrifol am y golch hefyd. Mae'n hollbwysig eich bod yn parchu preifatrwydd y myfyrwr, ond dylech gael mynediad i lanhau eu hystafell bob wythnos, bydd rhaid i chi roi gwybod iddynt ymlaen llaw fel y gallant dacluso eu hystafell cyn i chi ei glanhau.

Sut i fod yn deulu croesawu?

Yn gyntaf bydd rhaid i chi lenwi ffurflen gais a'i chyflwyno i'r Swyddfa Ryngwladol. Bydd y Swyddog Llety yn trefnu ymweliad i gynnal Asesiad Risg.

Rhaid i bob cartref fod â [thystysgrif nwy](#) gyfoes. Mae'r Llywodraeth wedi cynhyrchu canllawiau i bobl sy'n gosod ystafelloedd, mewn perthynas â [rheoliadau tân](#). Yn ogystal, mae cyfreithiau cysylltiedig â [throthwyon treth](#).

Cyfnewid gwybodaeth cyn cyrraedd

Rydym yn ceisio paru myfyrwr â theuluoedd croesawu yn ôl eu ffurflen gais y byddem yn ei hanfon atoch cyn eu bod yn cyrraedd. Rydym hefyd yn anfon eich proffil at y myfyriwr. Pan fydd y ddau barti wedi cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r trefniadau, rydym yn eich annog i gysylltu â'ch gilydd cyn dechrau'r tymor.

Os yw'n bosibl, hoffem i chi gasglu'r myfyriwr pan fydd yn cyrraedd yn Abertawe oni bai bod eu cludiant a drefnwyd yn dod â nhw yn uniongyrchol i'r Llety Homestay.

Gwyliau

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwr yn dychwelyd adref ar gyfer y Nadolig, ond nid bob amser. Os byddant yn aros yma dros y cyfnod hwnnw ac ni allwch roi llety iddynt byddai rhaid i ni gael gwybod cyn gynted ag y bo modd fel y gallwn wneud trefniadau eraill. Os ydych yn mynd i ffwrdd ar gyfer y penwythnos neu ar wyliau bydd rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Ryngwladol ymhell ymlaen llaw er mwyn i ni wneud trefniadau eraill.

Ffurflenni cytundeb

Pan fydd y myfyriwr wedi ymgartrefu, byddwn yn anfon Ffurflen Cytundeb Homestay i chi sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r teulucroesawu, y myfyriwr a'r Coleg a gaiff ei llofnodi gan bob parti. Mae'n bwysig defnyddio'r ffurflen hon i gynnwys rheolau tŷ a fydd yn gosod y ffiniau o'r diwrnod cyntaf. Gallai'r rhain gynnwys defnyddio'r gegin a bwyd, golch, rhannu ystafell ymolchi, ffrindiau'n ymweld / aros yn rhywle arall.

Lles ac iechyd

Bydd y myfyrwr yn cael llythyr gan y Coleg er mwyn iddynt gofrestru gyda meddyg ac felly hoffem i chi drefnu apwyntiad gyda'ch meddyg fel y gallant gofrestru yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd. Byddant wedi talu am ofal iechyd sylfaenol gyda'u Cais am Fisa. Bydd hyn yn rhoi

modd iddynt gael eu gweld heb oedi os byddant yn dost. Os byddant yn teimlo'n rhy dost i ddod i'r Coleg rhaid iddynt roi gwybod i chi a'r Swyddfa Ryngwladol ac adrodd y salwch drwy ap neu wefan y Coleg.

Er eich gwybodaeth, ma nyrs yn y Coleg yn ogystal â swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig yn y Swyddfa Ryngwladol. Fodd bynnag os ydynt yn dost yn y Coleg mae'n bosibl y byddwn yn eu hanfon adref.

Adborth a chwynion

Rydym yn croesawu adborth i wella ein gwasanaeth. Byddwn yn gofyn i chi lenwi holiadur ynghylch eich profiad o lety Homestay yn ystod y flwyddyn a gallwch ddarparu adborth anffurfiol ar unrhyw adeg i'n Swyddog Llety.

Gysylltu â ni

Swyddfa Ryngwladol: 01792 284007

Y tu allan i oriau (materion brys yn unig): 0746369995